***Status:*** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1276 (Cy. 259)

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Rhagfyr 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *7 Rhagfyr 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Rhagfyr 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, y mae'r pwerau a roddir gan adran 16(1) i (4) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) wedi eu breinio bellach ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny sy'n ymddangos i'r Gweinidogion yn rhai cysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2022.

### Diwygio Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC

**2.**—(1) Mae Penderfyniad y Cyngor 2003/17 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 6, yn lle "31 December 2022" rhodder "31 December 2029".

(**1**) 1964 p. 14. Diwygiwyd adran 16(1), a mewnosodwyd adran 16(1A), gan baragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Mae'r pwerau yn Neddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, o'u darllen ynghyd â pharagraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) yn caniatáu gwneud addasiadau i "retained direct minor EU legislation" fel y'i diffinnir yn adran 7(6) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964. Gweler adran 38(1) am y diffiniad o "the Minister".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) EUDN 2003/17. Mae diwygiadau i'r Penderfyniad hwn ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru

5 Rhagfyr 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Erthygl 6 o Benderfyniad y Cyngor 2003/17 dyddiedig 16 Rhagfyr 2002 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd er mwyn estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hwn.